



Cam 9: Cynhyrchu pryd cytbwys

Bwriadau dysgu

- I baratoi llysiau yn ddiogel
- I gynhyrchu pryd cytbwys
- Cyflwyno bwyd mewn ffordd apelgar

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, bydd y plant yn cynllunio ac yn dilyn y rysâit wedi'i haddasu o'u dewis i wneud y saig cytbwys o'u bwydlen y gwnaethant gyllidebu ar ei chyfer a'i dadansoddi yng Ngham 5. Mae hwn yn gyfle da i'r plant adolygu a chymhwyso'r technegau paratoi bwyd a addysgwyd mewn prosiectau STEMterprise blaenorol i ddadansoddi sut mae cogyddion proffesiynol yn cynhyrchu prydau a'u hail-greu drostynt eu hunain.

Mae'r adran 'Ychwanegu pinsiad o Fathemateg gydag ystyr' yn darparu syniadau y gellid eu cynnwys i adolygu llawer o amcanion dysgu Cyfnod Allweddol 2 mewn ffordd ymarferol.

Defnyddiau sydd eu hangen

- Cynhwysion a brynodd y plant gyda'u cyllidebau siopa
- Offer cegin (clorian bwyso, cyllyll llysiau, pliciwyr, byrddau torri ac ati)
- Ryseitiau y mae'r plant wedi'u haddasu

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2-10: Adolygu sgiliau cylllell	<ul style="list-style-type: none">• Rhannwch y sleidiau sgiliau cylllell i adolygu'r dulliau sydd wedi cael sylw mewn prosiectau STEMterprise blaenorol.
Sleid 11: Dysgu gan weithwyr proffesiynol	<ul style="list-style-type: none">• Rhannwch y lluniau o fwyd bwyty wedi'i gyflwyno'n dda ac arwain trafodaeth am sut y gallwn ddefnyddio'r technegau paratoi llysiau y mae'r plant wedi'u dysgu mewn prosiectau STEMterprise blaenorol i wneud i'n pryd edrych yn apelgar ar y plât.
Sleid 12: Cynllunio ein pryd bwyd	<ul style="list-style-type: none">• Rhowch gyfle i'r plant ymchwilio i sut y gellid cyflwyno'r pryd bwyd o'u dewis a braslunio sut hoffent i'w saig edrych ar blât.• Yna dylent lunio cynllun ar gyfer pa dechnegau paratoi llysiau y bydd angen iddynt eu defnyddio er mwyn cyflawni hyn.
Sleid 13: Hylendid bwyd	<ul style="list-style-type: none">• Esboniwch, cyn y gallwn ddechrau paratoi ein cynnyrch bwyd, bod angen i ni olchi ein dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr, clymu gwallt hir yn ôl, torchi ein llewys a glanhau ein harwynebau gwaith.

Sleid 14: Diogelwch yn y gegin

- Gofynnwch i'r plant edrych o gwmpas yr ystafell a gweld y peryglon posib. E.e. cyllyll miniog, pliciwyr a gratwyr; poptai poeth, hobiau, sosbenni; llithro ar hylifau/bwyd a gollwyd ac ati.
- Cymerwch adborth a gwnewch yn siŵr bod sylw'r plant yn cael ei dynnu at y peryglon cyn iddyn nhw ddechrau paratoi eu cynhyrchion.
- Cyn i'r plant ddechrau gwneud eu cynhyrchion, modelwch sut i baratoi'r cynhwysion llysiâu yn ddiogel. Gellid hefyd argraffu a lamineiddio'r sleidiau sgiliau cylllell fel y gall y plant gyfeirio atynt wrth weithio.
- Gallai'r plant dynnu lluniau o bob cam wrth baratoi eu seigiau ac yna, mewn sesiwn ddiweddarach, ychwanegu delweddau, cerddoriaeth a naratif at grewr fideo fel Splice, Qwik neu iMovie i greu eu canllaw rysâit fideo eu hunain.
- Ar ôl i'r seigiau gael eu paratoi a'u cyflwyno mewn ffordd apelgar, gofynnwch i'r plant dynnu llun ohonynt. Gellir defnyddio'r rhain yn eu bwydlenni a'u hymgyrchoedd hysbysebu.

Ychwanegu pinsiad o Fathemateg gydag ystyr!

Mesuriadau

Deall graddfeydd

Mae dehongli graddfeydd yn aml yn faes dryswch i blant felly mae gadael iddyn ddefnyddio cynifer o wahanol raddfeydd â phosibl, mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl, yn bwysig ar gyfer dysgu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt i'w dehongli'n gywir pan gânt eu cyflwyno mewn testun llyfr neu bapur prawf. Mae coginio yn gyfle gwych i hyn gan fod cymaint o wahanol raddfeydd i'w dehongli: graddfeydd pwysu, thermomedrau, deialau popty, yggiau mesur ac ati. Manteisiwch ar bob cyfle i archwilio graddfeydd gyda'i gilydd yn ystod y gweithgaredd hwn!

- Dechreuwch trwy edrych ar y rhifau ar y raddfa. Beth yw'r patrwm? Faint maen nhw'n mynd i fyny bob tro? Sut allwch chi weithio hyn allan os nad ydych chi'n siŵr? (tynnu)
- Os yw'r gwahaniaeth rhwng pob rhif ar y raddfa, er enghraifft, yn 200 ac mae 4 cynyddiad rhwng pob rhif, pa weithrediad allwn ni ei ddefnyddio i gyfrifo faint mae pob cynyddiad ar y raddfa yn ei gynrychioli? (rhannu)
- Os ydym bellach yn gwybod bod pob cynyddran yn cynyddu 50, yna gallwn weithio allan faint mae unrhyw un o'r cynyddrannau yn ei gynrychioli trwy gyfrif ymlaen mewn 50au o'r nifer agosaf ar y raddfa.
- Bydd defnyddio'r camau hyn i helpu'r plant i ddeall y raddfa y maent yn gweithio gyda hi cyn iddynt geisio mesur eu cynhwysion yn cynyddu eu cywirdeb gan y gallant weithio allan ble ar y raddfa y mae angen iddynt gyrraedd wrth dywallt eu cynhwysion.

Cymharu rhwng unedau mesur

Mae pwysu a mesur cynhwysion yn darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer adolygu dysgu trosi. Mae hwn yn gysyniad anodd y mae plant yn ei chael yn anodd ei ddeall, ond mae ei gyflwyno mewn cyd-destun ymarferol yn rhoi ystyr iddo ac yn ei wneud yn gofiadwy a gall wella dealltwriaeth a gallu plant i gymhwyso dulliau trosi yn ôl yn yr ystafell ddosbarth yn sylweddol.

- Gan gymryd mesur blawd fel enghraifft, dechreuwch trwy edrych ar faint mae bag mawr o flawd yn ei bwysu (Defnyddiwch fag 1kg).
- Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ffeithiau trosi sylfaenol e.e. mae gramau yn llai na chilogramau ac mae 1000 gram ym mhob cilogram. Ysgrifennwch y ffeithiau hyn ar y bwrdd.
- Esboniwch, os oes 1000 gram mewn cilogram yna mae'n rhaid i gramau fod 1000 gwaith yn llai na chilogramau.
- Gofynnwch i'r plant edrych ar y berthynas a dweud wrthyhych a oes mwy o gramau neu gilogramau? Pam mae nifer y gramau yn fwy? Mae gramau fil gwaith yn llai na chilogramau felly mae angen mil gwaith yn fwy ohonyn nhw i lenwi'r bag 1kg.
- Gan ddefnyddio'r berthynas rydyn ni newydd edrych arni, a all y plant ddweud wrthyhych faint o gramau fydd mewn 2kg?
- Gofynnwch i'r plant feddwl sut y gallem ddefnyddio'r berthynas hon i ddweud wrthym beth i'w wneud pe byddem am drosi 300g yn gilogramau.
- Bydd gafael yn y cysyniad allweddol bod gramau yn llai na chilogramau ac felly mae angen mwy ohonynt arnom yn helpu plant i osgoi drysu rheolau trosi yn ôl yn yr ystafell ddosbarth ac, er enghraifft, lluosî â 1000 yn lle rhannu wrth drosi o gilogramau i gramau.
- Er mwyn atgyfnerthu maint cilogram ac osgoi plant rhag gwneud y camgymeriad cyffredin o feddwl bod 100 gram ym mhob cilogram, gofynnwch i'r plant fesur 100 gram o flawd drostynt eu hunain a'i ddal yn eu dwylo. Mae gweld cyn lleied o flawd maen nhw wedi'i fesur yn ffordd bwerus o'u helpu i ddelweddu hyn yn ôl yn yr ystafell ddosbarth.

Ffracsiynau

Ar ôl i'r plant wneud eu cynhyrchion a thynnu llun ohonynt ar gyfer eu hymgyrchoedd hysbysebu, fe allech chi ddod â pheth adolygu ffracsiynau i mewn cyn iddynt samplu eu cynnyrch.

1. Ffracsiynau cyfwerth

- Gofynnwch: pe bawn i eisiau rhannu fy nghynnyrch ag un/tri pherson, faint o ddarnau HAFAL y byddai angen i mi ei rannu i mewn iddynt? Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr enwadur ffracsiwn = sawl rhan mae'r cyfan wedi'i rannu.
- Gofynnwch i'r plant rannu eu cynnyrch yn ei hanner. Gofynnwch faint o ddarnau fydd gen i os ydw i'n rhannu fy nghynnyrch yn chwarteri? Torrwch un o'r haneri yn ei hanner eto i wneud chwarteri a gosod y darnau chwarter ar ben un o'r hanneri. Sawl chwarter sy'n hafal i (yr un faint â) hanner?
- Adolygwch sut i ysgrifennu hwn fel ffracsiwn. Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr rhifiadur ffracsiwn. Gofynnwch i'r plant barhau i archwilio ffracsiynau cyfatebol trwy dorri eu chwarteri yn eu hanner i wneud wythfedau a'u rhoi ar ben yr hanner. Sawl wythfed sy'n hafal i hanner? A allan nhw eu torri yn eu hanner eto i weithio allan faint o'r unfed ar bymthegfeddi sy'n cyfateb i hanner? Ysgrifennwch bob un o'r ffracsiynau i lawr a gofynnwch i'r plant chwilio am batrwm?
- Gellid ymestyn hyn i archwilio ffracsiynau cyfatebol i chwarter ac ati yn ymarferol cyn dysgu'r dull ysgrifenedig haniaethol ar gyfer cyfrif ffracsiynau cyfatebol. Unwaith y bydd y ddealltwriaeth hon yn ddiogel, bydd y plant yn barod i gymharu a threfnu ffracsiynau y mae eu henwadwyr i gyd yn lluosrifau o'r un nifer.
- Gallech ymestyn hyn gan ofyn i'r plant rannu eu cynnyrch bwyd yn ffracsiynau allweddol ac yna ysgrifennu'r cyfwerthoedd degol a chanrannol cyn gynted ag y gallant i adolygu a gwreiddio'r perthnasoedd.

2. Cymharu, trefnu a chyfrifo â ffracsiynau gyda'r un enwadur

- Gofynnwch: pe bawn i eisiau rhannu fy nghynnyrch gydag un/tri pherson arall, faint o ddarnau HAFAL y bydd angen i mi ei rannu i mewn iddynt? Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr enwadur ffracsiwn = i sawl rhan mae'r cyfan wedi'i rannu.
- Gofynnwch i'r plant rannu eu cynnyrch yn wythfedau. I faint o ddarnau sydd angen i chi eu torri?
- Defnyddiwch gwestiynu i adolygu ystyr y rhifiadur a gofyn i'r plant eu gweithio allan yn gorfforol gan ddefnyddio eu cynnyrch bwyd e.e. sawl wythfed sydd gennych chi ar eich plât? Allwch chi ddal un rhan o wyth o'ch cynnyrch? Sawl wythfed fydd ar ôl? Atgyfnerthwch bob cwestiwn gyda brawddeg rif ysgrifenedig ar y bwrdd.
- Gofynnwch gwestiynau syml i wreiddio dealltwriaeth y plant o ystyr y rhifiadur a gofynnwch iddynt eu gweithio allan yn gorfforol gan ddefnyddio eu cynnyrch bwyd e.e. os ydych chi'n bwyta tri wythfed o'ch cynnyrch a bod eich partner yn bwyta pum wythfed, pw y fydd wedi bwyta mwy o'r cyfan?
- Gellid ymestyn hyn i gwmpasu adio a thynnu ffracsiynau gyda gwahanol enwaduron trwy adael i'r plant gwblhau'r broses o drosi'r ffracsiynau yn ffracsiynau cyfatebol gyda'r un enwadur cyn cyflawni'r cyfrifiad.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Dylunio a Thechnoleg	Coginio a maeth	<ul style="list-style-type: none">Paratowch a choginiwch amrywiaeth o rysetiau sawrus yn bennaf gan ddefnyddio ystod o dechnegau coginio
Mathemateg	Rhif: Ffracsiynau (gan gynnwys degolion a chanrannau)	<ul style="list-style-type: none">Defnyddiwch ffactorau cyffredin i symleiddio ffracsiynauCymharu a threfnu ffracsiynau, gan gynnwys ffracsiynau > 1Adio a thynnu ffracsiynau gyda gwahanol enwaduron a rhifau cymysg, gan ddefnyddio'r cysyniad o ffracsiynau cyfatebolDwyn i gof a defnyddio cywerthedd rhwng ffracsiynau syml, degolion a chanrannau, gan gynnwys mewn gwahanol gyd-destunau
	Mesuriad	<ul style="list-style-type: none">Defnyddiwch, darllen, ysgrifennu a throsi rhwng unedau safonol, gan drosi mesuriadau o hyd, màs, cyfaint ac amser o uned fesur lai i uned fwy, ac i'r gwrthwyneb, gan ddefnyddio nodiant degol i hyd at dri lle degol